CYNGOR CYMUNED PISTYLL
Cofnodion - CYFARFOD Tachwedd 2021

DYDDIAD	**Nos Fawrth – 9fed o Dachwedd 2021**
AMSER	**7 y.h. – Cyfarfod misol y Cyngor**
LLEOLIAD	**Y Festri, Llithfaen**
CADEIRYDD	**Ynyr Ellis**

1.	**CROESO**
	Croesawodd YE bawb i'r cyfarfod. Yn bresennol heno roedd Lisbeth James **(LJ)**, Ynyr Ellis **(YE),** Sianelen Pleming **(SP)** Olwen Roberts **(OR),** John Owen **(JO),** Gwilym Williams **(GW)**, Griffith Jones **(GJ),** William Jones **(WJ),** a'r Cyng Aled Wyn Jones **(AWJ).**
2.	**YMDDIHEURIADAU**
	Sara Williams **(SW)** ac Emlyn Hughes **(EH)** Gillian Thomas **(GT)**
3.	**DATGAN DIDDORDEB**
	Dim
4.	**DIWEDDARIADAU ASEDAU**
	Nid dderbyniwyd unrhyw bryderon.
5.	**COFNODION CYFARFOD Hydref 2021**
	a) CYFLWYNO A MABWYSIADU Derbyniwyd cais am newid 'rhaglen' yn 'cofnodion' ar ben y ddogfen. Cynigiodd **OR** gywirdeb gweddill y cofnodion gyda **WJ** yn eilio a phawb yn cytuno. **b) MATERION YN CODI** **i. TOILEDAU CYHOEDDUS LLITHFAEN-** Adroddodd SP ei bod wedi codi'r mater mewn cyfarfod o'r pentrefwyr a nodwyd yn y cyfarfod bod y Fic mewn trafodaethau ynglŷn â chymryd y safle i wneud gardd gwrw. Penderfynwyd gadael y mater i weld beth ddaw o'r syniad.

ii. **TWMPATHAU CYFLYMDER** –
Y mater wedi ei gyfeirio i Ceri Hughes Thomas yn yr Uned Drafnidiaeth gan y clerc ac yn disgwyl ateb i e-bost.

iii. **ARWYDDION LÔN RHOSYDD-**
Y mater wedi ei gyfeirio i Ceri Hughes Thomas yn yr Uned Drafnidiaeth gan y clerc ac yn disgwyl ateb i e-bost.

iv. **PONT LLITHFAEN – TWLL YN Y WAL**
Y mater wedi ei gyfeirio gan Glyn Titus i Robin Owen fydd yn gwneud asesiad arno.

v. **ARWYDDION DWR AR LON Y NANT –**
Dim wedi digwydd yma.

vi. **CHWYN CLYMOG JAPANEAIDD AR LON RHOSYDD -**
Wedi ei chwistrellu a'i ddifa ar hyn o bryd.

vii. **DARPARIAETH O FIN BAW CI I BISTYLL**
Derbyniwyd gohebiaeth gan Glasdon yn nodi nad oedd angen anfon y bin baw ci yn ôl. GJ wedi cytuno i'w drwsio a'i osod ym Mhistyll.

viii. **MYNWENT PISTYLL**
Adroddodd GW nad oedd y gwaith wedi ei gyflawni i dorri gwair y Fynwent hyd yn hyn. Y clerc ddilyn y mater ymhellach.

ix **YMGYNGHORIAD AR DRETHI LLEOL AR GYFER AIL GARTREFI A LLETY HUNANARLWYO.**
Nododd y clerc ei bod wedi ei yrru.

x **FFRAMWAITH ADFYWIO CYNGOR GWYNEDD – ARDAL NI**
Nododd y clerc ei bod wedi trafod ymatebion y cyngor cymuned efo Alys Lloyd Jones, ac y byddai hi yn cysylltu i drafod ymatebion y cynghorau cymuned eraill.

xi **CŴYN GORFODAETH G21/0121**
Y clerc wedi gwneud ymoliadau a chopio GW i'r e-bost. Nododd GW bod y cyngor yn dal i drafod 2 Pistyll Terrace yn y Cyngor.

xii **BIN BAW CI WEST END**
Nododd y clerc bod cwyn wedi ei gwneud bod y bin yn llawn. Gofynwyd i'r clerc gysylltu i wagio'r bin bob pythefno o hyn ymlaen.

xiii **MYNWENT PISTYLL**
Nododd y clerc bod Danny yn methu torri'r fynwent ar hyn o bryd oherwydd y tywydd garw. Bydd yn ei thorri cyn gynted ag y bob modd.

xiv **CYNLLUNIO**
Nododd y clerc ei bod wedi anfon cais am fwy o amser i drafod ceisiadu cynllunio yn y dyfodol.

	xv **CYFARFOD** Nododd SP bod cyfarfod wedi ei drefnu yn y pentref i gymryd cyfrifoldeb dros y deffibriwleiddiwr a'r rhaglen hyfforddi gwirfoddolwyr ynglŷn â goryrru. Bydd cyfarfod eto i'w drefnu ddechrau'r flwyddyn. xv **ARWYDD WEDI LLITHRO YM MHISTYLL** Nododd y clerc bod y mater wedi ei roi i sylw Glyn Titus a'i fod o yn delio â'r mater. Nodwyd yn y cyfarfod nad oedd dim wedi digwydd hyd yma.
6.	**CEISIADAU CYNLLUNIO**
	Trafodwyd ymgynghoriad cyn cyflwyno cais ar Bentref Pwyliaid Penrhos. **a) RHIF CAIS/APP REF: C21/1018/43/LL –** CAE CHWARAE LLITHFAEN, GWYNEDD, LL53 6PA Cefnogwyd y cais yn unfrydol.
7.	**GWERSYLLA YN Y MAES PARCIO**
	Adroddodd SP bod y manylion yr oedd y cyfreithiwr ei angen wedi ei anfon iddo. Nododd GW bod wayleave y polion trydan ym mhen Nant yn mynd i Elusen Pistyll yn unol â phenderfyniad y cyngor. Bydd yn symud ymlaen yn awr i greu datganiad i JO a GW ei arwyddo.
8.	**Y GANOLFAN**
	Adroddodd SP bod adroddiad wedi ei wneud erbyn hyn ar y tamprwydd a bod y broblem yn fwy nag a feddyliwyd. Trefor Roberts, ar ran Pwyllgor y Ganolfan, yn cysylltu â'r Cyngor i weld os oes cyllid ar gael neu ei fenthyg ar delerau ffafriol i wneud y gwaith. Amcangyfrifir bod y gwaith tua £70 000.
9.	**MATERION LLEOL**
	a) OR – TWMPATHAU CYFLYMDER Nododd OR bod y twmpathau cyflymder wrth y ganolfan a Phen Pistyll angen eu hatgyweirio gan eu bod yn niweidio teiars – nodwyd bod angen sylw ar fyrder i'r mater hwn. Gofynwyd hefyd i roi cais am dwmpathau ar draws y lôn yn hytrach na dau dwmpath y gall ceir eu hosgoi. b) Nodwyd bod twll yn y ffordd wedi ymddangos o dan Bro Dawel yn dilyn y llifogydd diweddar.

10.	**GOHEBIAETH A GWYBODAETH**
	a) Adroddiad Adolygu Drafft - Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn b) Rali Goffa James Trenholme Tachwedd 27/28, 2021 c) Cais am wybodaeth parthed trefniadau Sul y Cofio lleol gan Matthew Chandler,Cronicl Gogledd Cymru d) Arolwg Adran 47 Cyfarfodydd Aml-Leoliad e) Pecynnau Cadwch Gymru'n Daclus f) Howard Huws - "Nid Datblygu'r Isadeiledd yw'r Ateb i'r Broblem." g) Ymgynghoriadau Cynlluniau Teithio Llesol Gofynnwyd i'r clerc ymateb i d) ar ran y cyngor. Gofynnwyd i'r clerc ddewis a dethol gohebiaeth berthnasol i'r cyngor a'r ardal.
11.	**CYLLID**
	Nododd y clerc yn ei absenoldeb nad oedd newid i sefyllfa gyllid y mis blaenorol.
12.	**TREFNIADAU A DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**
	Penderfynwyd y byddai y cyfarfod ym mis Rhagfyr yn cael ei gynnal yn Tabor am 7 o'r gloch ar 14 Rhagfyr 2021. Gofynnwyd a fyddai 2 gopi papur o unrhyw geisiadau cynllunio neu lythyrau perthnasol yn cael eu darparu ar gyfer y cyfarfod gan bod y cynghorwyr yn teimlo weithiau ein bod yn trafod ceisiadau pwysig heb gael yr wybodaeth berthnasol o'n blaenau yn y cyfarfod.